


# Fideos canllaw cofrestru

Image not found or type unknown



Darganfyddwch fwy am gofrestru o'r fideos a'r dolenni isod.

Cyhoeddwyd gyntaf: 30 Mawrth 2022

Diweddariad olaf: 28 Hydref 2024

Lawrlwythwyd y ddogfen hon o [gofalcymdeithasol.cymru](http://gofalcymdeithasol.cymru) ac efallai nid hwn yw'r fersiwn diweddaraf.

Ewch i <http://cynnwys.gofalcymdeithasol.cymru/cofrestru/fideos-canllaw-cofrestru> am y fersiwn diweddaraf.

Darganfyddwch fwy am gofrestru o'r fideos a'r dolenni isod.

## Beth yw cofrestru a sut allwch chi gofrestru?

Mae cofrestru gyda ni yn golygu eich bod yn rhan o weithlu proffesiynol a gallwch ddangos bod gennych sgiliau a gwybodaeth sy'n hanfodol i ddarparu gofal a chymorth da i bobl Cymru.

**Dyma fideo canllaw cyflym gyda gwybodaeth hanfodol am gofrestru gyda Gofal Cymdeithasol Cymru.**

Gweld trawsgrifiad

Dyma ganllaw hanfodol a chryno am gofrestru gyda Gofal Cymdeithasol Cymru.

Mae Gofal Cymdeithasol Cymru yn cynnal y gofrestr o'r gweithlu gofal cymdeithasol yng Nghymru.

Mae'r Gofrestr yn dangos pwy sydd wedi profi fod ganddynt y gwerthoedd, sgiliau a'r hyfforddiant cywir i fod yn weithiwr gofal cymdeithasol.

Mae'n helpu'r cyhoedd i wybod y gallant ymddiried ynddoch a dibynnu arnoch fel gweithiwr.

Pan fyddwch wedi'ch cofrestru, byddwch yn gallu defnyddio teitl eich proffesiwn.

Byddwch yn cael eich cefnogi gan

- y côd ymarfer proffesiynol ar gyfer gofal cymdeithasol

- Canllawiau ymarfer ffurfiol sy'n disgrifio arfer da
- Gwybodaeth ac adnoddau sy'n ceisio mynd i'r afael â rhai o'r pethau sy'n bwysig i chi yn eich gwaith
- Gwahoddiadau i ddigwyddiadau, cynadleddau ac ymgynghoriadau

Mae'n amser cofrestru!

Rhaid i bawb ar y gofrestr gytuno i ddilyn y Cod Ymarfer Proffesiynol ac Arweiniad Ymarfer ar gyfer eu rôl. Gellir gweld copïau yn y ffurflen gais ac ar ein gwefan.

I gychwyn eich cais, ewch i GCCArlein i greu cyfrif.

GCC ar-lein yw ein porth cofrestru. Mae'n cynnwys canllawiau cam wrth gam ar sut i gofrestru.

Os nad ydych wedi cofrestru eto, gallwch ddefnyddio GCC ar-lein i wneud cais ar-lein.

Fel rhan o'r broses hon, bydd angen i chi uwchlwytho'r dogfennau a restrir a dewis rhywun priodol i gymeradwyo'ch cais.

Ar ôl i chi gofrestru, gallwch ddefnyddio GCC ar-lein i gynnal eich cofrestriad.

Mi fydd hyn yn eich galluogi i ddiweddarau unrhyw newidiadau fel eich cyfeiriad, manylion swydd, gwybodaeth bersonol a phroffesiynol, adnewyddu eich cofrestriad a thalu eich ffioedd.

Gallwch hefyd ddefnyddio GCC ar-lein i gadw cofnod cyfoes o'ch datblygiad proffesiynol parhaus (DPP).

Am fwy o wybodaeth neu i gychwyn eich cofrestriad, ewch i [GCCArlein.cymu](http://GCCArlein.cymu)

Darganfyddwch fwy am [pam rydym yn cofrestru](#).

## Gwneud cais i gofrestru

I gofrestru mae angen i chi wneud cais ar ein system [GCCar-lein](#).

**Dyma fideo canllaw cyflym i ddangos i chi sut i wneud cais i gofrestru, gydag awgrymiadau i'ch helpu drwy bob cam o'r broses ar-lein.**

### Gweld trawsgrifiad

Dyma ganllaw i ddangos i chi sut i gofrestru ar-lein, gydag awgrymiadau i'ch helpu trwy bob cam o'r broses hon.

Cliciwch y botwm i anfon côd dilysu i'ch cyfeiriad e-bost. Yna bydd angen i chi ddod o hyd i'r côd dilysu yn eich mewnlwch e-bost.

Teipiwch hwn yn y blwch perthnasol a chliciwch ar 'Gwirio côd'.

Gallwch nawr greu eich cyfrinair ar gyfer eich cyfrif GCCarlein.

Cliciwch ar y ddolen 'Gwneud Cais i Gofrestru', lle byddwch yn cael eich tywys i'r dudalen cyn ymgeisio.

Fe welwch ddolenni i'r hysbysiad preifatrwydd, y canllawiau ymarfer a'r cod ymarfer proffesiynol.

Bydd angen i chi gadarnhau eich bod wedi darllen y rhain a chytuno iddynt, a'ch bod yn bwriadu ymarfer ym maes gofal cymdeithasol yng Nghymru.

Mae gennym ganllawiau ymarfer ar gyfer pob rôl y mae angen ei chofrestru.

Dewiswch yr arweiniad sy'n ymwneud â'r rôl yr ydych yn gwneud cais amdani.

Mae gennym wybodaeth am y Codau ymarfer proffesiynol, yn ogystal â fersiynau llawn a hawdd eu darllen o'r Cod.

Mae'n rhaid i chi gytuno i gadw at y rhain fel gweithiwr gofal cymdeithasol proffesiynol cofrestredig.

Unwaith y byddwch wedi darllen a chytuno i'r dogfennau, gallwch symud ymlaen i'r ffurflen gais.

Yna bydd angen i chi ddatgan os ydych erioed wedi cofrestru gyda ni o'r blaen a dewis y rôl yr ydych yn gwneud cais amdani.

Yna, byddwch yn cael eich tywys i'r dudalen 'cyn i chi ddechrau', sydd â gwybodaeth am yr hyn y bydd ei angen arnoch i gwblhau eich cais.

Pan fyddwch wedi cwblhau adran, bydd tic werdd yn dangos wrth ymyl yr adran honno ar y ffurflen.

Os nad yw rhywbeth yn gyflawn, fe welwch ebychnod melyn yn dweud wrthyf fod angen rhagor o wybodaeth arnom.

Os ydych yn cael trafferth cyflwyno eich ffurflen, gallwch gysylltu â ni ar yr e-bost a ddangosir.

Yn yr adran gyntaf, byddwn yn gofyn am eich manylion personol, gan gynnwys enw, manylion cyswllt a dyddiad geni.

Gallwch deipio'r dyddiad neu ddefnyddio'r calendr.

Yn yr adran nesaf, bydd angen eich cyfeiriad presennol arnom.

Yna byddwn yn gofyn i chi ychwanegu manylion eich cyflogaeth bresennol.

Bydd angen i chi ddewis eich cyfeiriad gwaith o'r gwymplen.

Dechreuwch deipio enw eich sefydliad, neu'r cod post, a bydd yn dangos yn y rhestr.

Gallwch ychwanegu mwy nag un gyflogaeth os oes angen.

Nesaf, mae angen i chi ychwanegu manylion eich cyflogaeth dros y 5 mlynedd diwethaf, gan gynnwys teitl eich swydd ac enw'r sefydliad ar gyfer pob cofnod.

Rhaid i chi roi cyfrif am unrhyw fylchau o fwy na 3 mis.

Os nad ydych wedi newid swydd yn y 5 mlynedd diwethaf, gallwch hepgor yr adran hon.

Nawr mae'n bryd ychwanegu manylion eich cymwysterau.

Gallwch ddod o hyd i restr o gymwysterau a dderbynnir ar gyfer pob rôl ar ein gwefan gan ddefnyddio'r ddolen ar y dudalen hon.

Os oes gennych gymhwyster, bydd angen i chi ychwanegu'r manylion.

Bydd angen copi o'ch tystysgrif arnom cyn y gallwn brosesu eich cais.

Gallwch uwchlwytho hwn yn yr adran Dogfennau.

Os nad oes gennych gymhwyster ond bod gennych 3 blynedd o brofiad yn ystod y 5 mlynedd diwethaf, gallwch gofrestru gan ddefnyddio cymhwysedd wedi'i gadarnhau.

Bydd angen i chi ddewis Ardystiwr Cymhwysedd fel rhan o'ch cais gan ddefnyddio'r ddolen a ddangosir.

Os nad yw eich rheolwr yn ymddangos yn y rhestr hon, gallwch lenwi ei fanylion ef neu hi yma.

Nesaf, bydd angen i chi ddweud wrthym a ydych erioed wedi'ch cofrestru gyda chorff rheoleiddio arall.

Bydd angen cadarnhau nad ydych erioed wedi bod yn destun unrhyw achosion.

Yn yr adran nesaf mae angen i chi ddweud wrthym am eich cofnod disgyblu.

Os atebwch yn gadarnhaol i unrhyw un o'r cwestiynau hyn, gofynnir i chi ddarparu rhagor o wybodaeth gan ddefnyddio'r ddolen isod.

Bydd angen i chi gwblhau pob adran yn y cam hwn er mwyn gallu symud ymlaen.a

Nawr bydd angen i chi roi manylion eich gwiriad DBS diweddaraf.

Os ydych yn defnyddio gwasanaeth diweddarau'r DBS, ychwanegwch rif eich tystysgrif DBS ddiweddaraf yn y gofod a ddarperir.

Bydd angen i chi gadarnhau eich bod wedi darparu dyddiad DBS o fewn y 3 blynedd diwethaf, yna cadarnhau nad ydych wedi cael eich gwahardd rhag gweithio gyda phlant neu oedolion sy'n agored i niwed.

Yn olaf, gofynnir i chi gadarnhau unrhyw euogfarnau troseddol, yn y gorffennol neu yn yr arfaeth.

Nawr mae angen i chi ddewis rhywun o'ch sefydliad i gymeradwyo'ch cais.

Ychwanegwch y cymeradwywr gan ddefnyddio'r ddolen a ddangosir.

Yna dewiswch eich cymeradwywr o'r gwymplen.

Os nad yw eich cymeradwywr ar y rhestr, gallwch ychwanegu ei fanylion ef neu hi yn yr adran a ddangosir.

Sylwch y bydd gan bron bob sefydliad ardystiad, ac y gallai peidio â dewis un arwain at oedi gyda'ch cais.

Yn yr adran nesaf, bydd angen i chi ddweud wrthym am unrhyw gyflyrau iechyd a allai effeithio ar eich gallu i weithio.

Os dewiswch ie, bydd angen i chi ddarparu ychydig mwy o wybodaeth.

Nid yw eich cymeradwywr yn gweld yr adran hon.

Ni ddefnyddir yr adran cydraddoldeb ac amrywiaeth ar gyfer prosesu. Mae hon yn adran ddewisol sy'n ein helpu i ddysgu mwy am amrywiaeth y gweithlu gofal cymdeithasol yng Nghymru.

Yn yr adran hon byddwch yn uwchlwytho unrhyw ddogfennau sydd eu hangen ar gyfer eich cais, megis tystysgrifau cymhwyster.

Gallwch ddewis y math o ddogfen y mae angen i chi ei huwchlwytho a'i hatodi i'ch cais o'ch dyfais.

Os ydych yn gwneud cais gan ddefnyddio cymhwyster, bydd angen copi o'ch tystysgrif arnom cyn y gallwn brosesu eich cais.

Cam olaf y cais yw eich datganiad personol.

Darllenwch yr holl ddatganiadau a chadarnhewch gyda'r botwm ar y gwaelod.

Ticiwch y blwch dim ond os oes angen dau gofrestrriad neu fwy arnoch, os mai dim ond mewn un math o rôl rydych yn gweithio dim ond un cofrestrriad sydd ei angen arnoch.



Nawr fe fydd angen i chi dalu eich ffi ymgeisio. Sylwch na fydd eich cais yn cael ei brosesu nes bod y ffi wedi'i thalu. Rydym yn argymhell Debyd Uniongyrchol fel y ffordd orau o sicrhau bod eich ffioedd yn cael eu talu bob blwyddyn.

Byddwch yn cael eich tywys i'ch 'sgrîn ffioedd a thaliadau' lle byddwch yn gweld beth fydd angen i chi ei dalu.

Cliciwch 'Talu nawr' a byddwch yn gallu sefydlu debyd uniongyrchol i gasglu eich ffi ymgeisio, a'ch ffioedd yn y dyfodol yn hawdd.

Bydd angen i chi lenwi manylion eich cyfrif a calico i ddod o hyd i gyfrif.

Os yw'n well gennych dalu gyda cherdyn credyd neu ddebyd, gallwch glicio ar y botwm ar waelod y dudalen, lle gofynnir i chi am eich manylion talu.

Dyna fe! Mae eich cais wedi'i gyflwyno.

Os bydd angen rhagor o wybodaeth arnom, neu os ydym wedi prosesu eich cais, byddwn yn cysylltu â chi ar yr e-bost a ddarparwyd gennych felly cadwch lygad ar eich e-byst!

Darganfyddwch fwy am [sut i wneud cais](#).

I ddod o hyd i fwy o fideos cam wrth gam am sut i gwblhau eich cais i gofrestru ewch i'n [rhestr chware cofrestru ar ein sianel YouTube](#).

**Nawr eich bod wedi cofrestru, beth sydd angen i chi ei wybod?**

## Nawr eich bod wedi cofrestru

Drwy gael eich cofrestru rydych wedi dangos bod gennych y gwerthoedd, y sgiliau a'r hyfforddiant cywir. Bydd angen i chi ddiweddarau eich cofrestriad a gallwch gymryd rhan y buddion o fod yn weithiwr proffesiynol cofrestredig.

### Dyma fideo canllaw cyflym am eich cyfrifoldebau fel person cofrestredig.

#### Gweld trawsgrifiad

Rydych wedi ymuno â Chofrestr gweithlu gofal cymdeithasol Cymru.

Da iawn, rydych chi bellach wedi'ch cofrestru i ymarfer yma yng Nghymru ac wedi dangos bod gennych y gwerthoedd, y sgiliau a'r hyfforddiant cywir i fod yn weithiwr gofal cymdeithasol.

Nawr gallwch elwa o'r buddion niferus o ymuno â'r Gofrestr

- Yn gyntaf, bydd gan bobl ffudd ynoch chi gan wybod eich bod chi'n dilyn y Côd.
- Gall defnyddwyr gwasanaeth a'u teuluoedd ddibynnu ar weithwyr gofal cymdeithasol cofrestredig.
- Gall gyflogwyr ddarparu'r gefnogaeth a'r datblygiad sydd eu hangen arnoch chi.
- Byddwch yn derbyn Canllawiau Ymarfer sy'n benodol i'ch rôl chi.
- Bydd gwybod mwy amdanoch chi yn helpu Gofal Cymdeithasol Cymru i gynllunio ffyrdd i'ch cefnogi chi.

- Fe'ch gwahoddir i ddigwyddiadau, cynadleddau ac ymgynghoriadau.

Mae cofrestru am hyd at dair blynedd gyda ffi blynyddol. Ar ôl hynny bydd angen i chi adnewyddu, neu bydd eich cofrestriad yn darhod sy'n golygu y bydd eich enw'n cael ei dynnu o'r Gofrestr ac ni allwch ymarfer yn gyfreithiol yng Nghymru.

Bydd eich cais am adnewyddiad ar gael i chi ei gwblhau ar eich cyfrif ar-lein SCW.

Yma gallwch hefyd ddiweddarau unrhyw newidiadau fel eich cyfeiriad, manylion swydd, gwybodaeth bersonol a phroffesiynol a thalu eich ffioedd.

Gallwch hefyd ddefnyddio GGC ar-lein i gadw cofnod cyfoes o'ch datblygiad proffesiynol parhaus.

Am fwy o wybodaeth ewch i [GCCarlein.Cymru](http://GCCarlein.Cymru).

## Cynnal eich cofrestriad

Mae'n bwysig eich bod yn diweddarau eich manylion cofrestru, talu'ch ffioedd a chofnodi eich datblygiad proffesiynol parhaus (DPP).

**Dyma fideo canllaw cyflym am sut i ddiweddarau eich cofrestriad gan ddefnyddion eich cyfrif [GCCar-lein](#).**

Gweld trawsgrifiad

Cynnal eich cofrestriad

Mae'r fideo hwn yn rhoi'r holl wybodaeth sydd ei hangen arnoch i gynnal eich cofrestriad, gan esbonio sut i ddefnyddio CGC ar-lein i reoli eich cyfrif.

Adran 'Fy Nghofrestriad' GCCarlein yw'r lle chi fynd i reoli popeth sy'n ymwneud â'ch cofrestriad.

Gallwch ddefnyddio'r ddewislen i lywio'n gyflym i bethau penodol y gallai fod angen i chi eu gwneud, neu gallwch glicio ar 'Fy Nghofrestriad' i weld eich manylion cofrestru.

Yma fe welwch eich rhif cofrestru a manylion eich cofrestriad, gan gynnwys eich dyddiad adnewyddu.

Pan ddaw'n amser adnewyddu eich cofrestriad, gallwch wneud hyn gan ddefnyddio'r botwm 'Adnewyddu'.

Os nad ydych bellach yn gweithio mewn rôl sy'n gofyn am gofrestriad, gallwch wneud cais i gael eich tynnu oddi ar y Gofrestr gan ddefnyddio'r botwm 'Cais am Diddymiad'

Gallwch ychwanegu DPP at eich cofnod unrhyw bryd.

Dewiswch yr opsiwn DPP o'r ddewislen 'Fy Nghofrestriad'. Bydd hyn yn mynd â chi i'r dudalen DPP, sydd â gwybodaeth am y gofyniad DPP, a sut i ychwanegu DPP.

Gallwch glicio ar y ddolen i gael rhagor o wybodaeth am sut i fodloni eich gofyniad DPP.

Sgroliwch i lawr y dudalen i weld eich cofnod DPP.

Dyma lle gallwch chi ychwanegu DPP gan ddefnyddio'r botwm a ddangosir. Gallwch hefyd allforio eich cofnod DPP os oes angen, gan ddefnyddio'r

botwm ar y dde.

I ychwanegu DPP, cliciwch ar y botwm 'Ychwanegu DPP'.

Dewiswch y math o'r gwymplen ac ychwanegwch fanylion eich gweithgaredd hyfforddi neu ddysgu.

Mae llawer o ffyrdd y gallwch barhau i ddysgu a datblygu fel gweithiwr gofal cymdeithasol proffesiynol, a gall llawer o bethau gyfrif fel DPP.

Mae gennym fwy o wybodaeth am yr hyn sy'n cyfrif fel DPP ar ein gwefan.

Nesaf, dywedwch wrthym yn gryno sut mae'r gweithgaredd hwn wedi cyfrannu at eich datblygiad ac wedi helpu i lywio eich ymarfer.

Bydd gwahanol weithgareddau yn dysgu pethau gwahanol i chi, ac mae'n bwysig myfyrio ar sut mae eich gweithgareddau dysgu wedi eich helpu i ddatblygu eich sgiliau fel gweithiwr gofal proffesiynol.

Nesaf, bydd angen i chi ddweud wrthym pryd y cwblhawyd yr hyfforddiant hwn.

Os cwblhawyd eich hyfforddiant mewn un diwrnod, bydd y 'Dyddiad o' a'r 'Dyddiad i' yr un peth.

Rhaid iddo fod o fewn eich cyfnod cofrestru presennol.

Yn olaf, mae angen ichi ddweud wrthym faint o oriau a gymerwyd i gwblhau'r hyfforddiant.

Mae'r maes hwn yn derbyn rhifau yn unig.

Unwaith y byddwch wedi gorffen, cliciwch ar y botwm 'arbed' i ychwanegu'r cofnod hwn at eich cofnod DPP.

Fe welwch fanylion eich ffioedd cofrestru trwy ddewis yr opsiwn 'Ffioedd a Thaliadau' yn y ddewislen 'Fy Nghofrestriad'.

Yma gallwch weld unrhyw ffioedd sy'n ddyledus, talu eich ffioedd, yn ogystal â gofyn am dderbynebaw ar gyfer unrhyw ffioedd a dalwyd.

I dalu ffi, cliciwch ar y botwm 'Talu Nawr' a ddangosir.

Bydd hyn yn mynd â chi i'r dudalen dalu lle gallwch naill ai sefydlu debyd uniongyrchol neu dalu gyda cherdyn credyd neu ddebyd.

Sefydlu debyd uniongyrchol yw'r ffordd hawsaf o sicrhau bod eich ffioedd yn cael eu talu ar amser bob amser.

Os ydych wedi newid eich cyflogaeth, mae angen i chi ddweud wrthym.

Dewiswch yr opsiwn 'Fy nghyflogaeth' o'r ddewislen 'Fy Nghofrestriad' i fynd â chi i'r dudalen cyflogaeth.

Sylwch os ydych yn newid i rôl sy'n gofyn am gofrestriad gwahanol, bydd angen i chi hefyd gyflwyno ffurflen 'newid mewn cofrestriad'.

Gellir gwneud hyn drwy'r tab 'fy hysbysiadau'.

Yma fe welwch eich cofnod cyflogaeth gyfredol.

Os oes gennych chi fwy nag un cyflogwr, mae angen i chi ychwanegu manylion eich cyflogaeth newydd.

I wneud hyn, cliciwch ar y botwm 'Ychwanegu Manylion Cyflogaeth Newydd' ar y dudalen.

Ychwanegwch fanylion eich rôl newydd yn yr adrannau gofynnol, gan gynnwys pryd y gwnaethoch ddechrau'r rôl hon ac os mai dyma'ch prif

gyflogaeth.

I ddewis eich cyfeiriad gwaith, dechreuwch deipio enw eich cyflogwr neu god post cyfeiriad gwaith yn y blwch a dewiswch y cyfeiriad cywir o'r gwymplen.

Yna bydd angen i chi ddewis ym mha leoliad rydych chi'n gweithio a gyda phwy.

Cliciwch ar 'Arbed a Chau' i ychwanegu'r gyflogaeth hon.

Sylwch, mae'n bwysig eich bod yn dweud wrthym pan fyddwch yn gorffen mewn rôl.

Os yw unrhyw rai o'ch cofnodion cyflogaeth eraill wedi dod i ben, gwnewch yn siŵr eich bod yn diweddarau hyn ar eich cyfrif.

Bydd eich cyflogaeth newydd nawr yn ymddangos yn eich rhestr gyfredol.

I ddod â hen gyflogaeth i ben, cliciwch y saeth a dewiswch y botwm perthnasol.

Bydd angen i chi ddweud wrthym y dyddiad y gadawoch, a dewis y rheswm dros adael o'r gwymplen.

Cliciwch 'Arbed a Chau' i ddychwelyd i'r dudalen cyflogaeth, lle na fydd y gyflogaeth a ddaeth i ben bellach yn ymddangos yn eich rhestr gyfredol.

Cofiwch ddewis prif swydd newydd os ydych yn dod â hen swydd i ben.

Mae angen i chi ddweud wrthym am unrhyw newidiadau i'ch statws gydag unrhyw gyrff rheoleiddio eraill. Dewiswch 'Corff Rheoleiddio' o'r ddewislen 'Fy Nghofrestriad' i fynd i'r dudalen.

Defnyddiwch y dudalen hon i roi gwybod i ni am unrhyw newidiadau.

Os oes angen i chi wneud datganiad, cliciwch ar yr opsiwn 'Gwneud Datganiad' yn y ddewislen 'Fy Nghofrestriad'

Yma mae angen i chi ddweud wrthym am unrhyw faterion sy'n ymwneud â'ch statws iechyd, disgyblaeth neu drosedd.

Mae'n ofyniad ar eich cofrestriad i wneud hynny.

Dewiswch y math o ddatganiad y mae angen i chi ei wneud, a llenwch y manylion ar y ffurflen gyda chymaint o wybodaeth â phosibl.

Mae angen i chi ddweud wrthym am unrhyw newidiadau i'ch manylion personol.

I wneud hyn, sgrolwch dros eich enw ar ochr dde'r faner a dewiswch pa fanylion y mae angen i chi eu diweddarau.

Gallwch wneud unrhyw newidiadau i'ch cyfeiriad cartref a'ch enw yma.

Os oes angen i chi ddiweddarau eich cyfeiriad e-bost, cysylltwch â ni yn uniongyrchol a gallwn helpu.

Sylwer, ar gyfer newid enw, bydd angen tystiolaeth wedi'i gwirio o'r newid arnom.

Gallwch uwchlwytho unrhyw ddogfennau yma.

Yn yr adran tanysgrifiadau, gallwch reoli sut rydym yn cysylltu â chi.

Os oes gennych ddiddordeb mewn derbyn gwybodaeth am unrhyw un o'r pynciau a ddangosir, gallwch ddewis y rhai yr ydych eu heisiau a chewch eich cynnwys ar ein rhestrau postio ar gyfer yr eitemau hynny.



Darganfyddwch fwy am [eich cyfrifoldebau fel person cofrestredig](#), [eich ffiodd](#), [adnewyddu ar ofynion DDP](#).

## Gwybodaeth i gyflogwyr a chymeradwywyr

### Cyfrifoldebau cyflogwyr

Er mwyn gallu cofrestru pobl mae angen i ni weithio gyda chyflogwyr i wirio a chasglu gwybodaeth i sicrhau mai dim ond y rhai sy'n addas i ymarfer sydd ar y Gofrestr.

Dyma fideo canllaw cyflym i gyflogwyr i ddeall sut i reoli unrhyw geisiadau a wnawn a'r camau y mae angen i chi eu cymryd.

#### Gweld trawsgrifiad

Pwrpas y fideo hwn yw helpu cyflogwyr i ddeall sut i reoli ceisiadau a chamau gweithredu gan Gofal Cymdeithasol Cymru.

Byddwn yn dangos y gwahanol adrannau i chi, a sut i'w defnyddio.

O fewn adran 'Fy Sefydliadau' rydych chi'n rheoli pob cais sy'n ymwneud â cheisiadau a chofrestriadau eich cyflogeion.

Dewiswch eich sefydliad o'r gwymplen ar y dudalen.

Yn eich tudalen sefydliad fe welwch ddewislen yn ymwneud â phob gweithred gan gyflogwr.

I weld pwy sydd â cheisiadau agored gan eich sefydliad, cliciwch y botwm 'Ymgeiswyr'.

Yma fe welwch restr o'r holl geisiadau agored ar gyfer eich sefydliad.

I gymeradwyo ceisiadau, cliciwch ar y botwm 'Ar gyfer 'Cymeradwyo'.

Byddwch yn gweld rhestr o bob math o geisiadau y mae angen eu cymeradwyo, wedi'u gwahanu yn ôl math; i gynnwys ceisiadau, adnewyddiadau, a newidiadau mewn cofrestriad.

Os ydych yn brif lofnodwr, fe welwch yr holl gymeradwyadau sy'n weddill ar gyfer eich sefydliad.

Bydd llofnodwyr ychwanegol dim ond yn gweld yr cymeradwyadau pan fyddant wedi'u dewis i'w cymeradwyo gan yr ymgeisydd.

I weithredu'r cymeradwyadau hyn, cliciwch y saeth ar yr ochr dde.

Gallwch weld y math o ffurflen i sicrhau bod y wybodaeth a ddarparwyd gan yr ymgeisydd yn gywir.

Yna gallwch chi gymeradwyo'r cais trwy glicio ar yr opsiwn 'Cadarnhau' a chwblhau'r holl feysydd ar y ffurflen cymeradwyo.

Bydd angen i chi gadarnhau bod y dyddiad dechrau cyflogaeth a ddarparwyd gan yr ymgeisydd yn gywir a chadarnhau ei fod wedi gwneud cais am y cofrestriad cywir.

Bydd angen i chi gadarnhau eich bod wedi gwirio tystysgrif geni'r ymgeisydd, a dewis pa ffurf adnabod ychwanegol yr ydych wedi'i gwirio.

Dim ond os yw eu DBS diweddaraf y tu allan i'r tair blynedd diwethaf y mae angen hyn.

Yna bydd angen i chi ddarparu manylion gwiriad DBS yr ymgeisydd, a chadarnhau eich bod wedi gwirio adrannau troseddol a disgyblu'r ymgeisydd ar y ffurflen gais.

Bydd angen i chi hefyd gadarnhau bod gan yr ymgeisydd gymwysterau addas, neu'n gweithio tuag at eu cymhwyster.

Mae yna adran lle gallwch chi ddarparu unrhyw wybodaeth ychwanegol rydych chi'n teimlo sy'n berthnasol i'r cais.

Er enghraifft, os oes unrhyw wallau yn y cais, neu os na allwch ei gymeradwyo, gallwch ddweud pam wrthym yma.

Yna rhaid i chi ddarllen y datganiad yn y rhestr isod, a chlicio ar y botwm 'Cyflwyno' i gadarnhau'r cymeradwyaeth.

I gadarnhau nad oes unrhyw faterion yn atal rhywun rhag cael ei dynnu oddi ar y Gofrestr, cliciwch ar y botwm 'Cadarnhad Dileu Cyflogwr' ar dudalen y sefydliad.

Os oes materion yn ymwneud ag ymddygiad heb eu hadrodd i ni, rhaid i chi roi gwybod i ni.

Cliciwch ar y saeth ar y dde a dewiswch gadarnhau fydd yn mynd â chi at y ffurflen gadarnhau.

Bydd angen i chi ddarllen y datganiadau cadarnhau, a dweud wrthym os yw'r person hwnnw wedi gadael eich cyflogaeth.

Yna mae'n rhaid i chi naill ai gadarnhau nad oes unrhyw resymau y gellir dileu'r unigolyn, neu gallwch ddewis yr opsiwn i nodi na allwch gadarnhau.

Os dewiswch yr opsiwn hwn, bydd angen i chi ddweud pam yn y blwch 'Gwybodaeth ychwanegol' isod.

Ar ol lei gwblhau, gallwch glicio ar y botwm cyflwyno.

Os oes angen ichi ddweud wrthym am unrhyw newidiadau i fanylion eich sefydliad, dewiswch y botwm 'Golygu Sefydliad neu 'Newid' ar y brif dudalen.

Yma gallwch ddweud wrthym am unrhyw newidiadau i gyfeiriad neu fanylion cyswllt.

Dim ond llofnodwyr arweiniol sydd â mynediad i wneud hyn.

Yn yr adran 'Unigolion Cofrestredig', fe welwch restr o'r holl bersonau cofrestredig sydd â chyflogaeth gyfredol yn eich sefydliad.

Byddwch yn gallu gweld eu henwau, teitlau swyddi, rhifau cofrestru (neu AADau), y dyddiadau y cawsant eu cofrestru a'r dyddiadau y mae disgwyl iddynt adnewyddu eu cofrestriad.

Gallwch hefyd weld a oes unrhyw gydymffurfiaeth sy'n weddill mewn perthynas â'u cofrestriad, megis gofynion cymhwyster.

Os oes rhywun wedi gadael eich sefydliad, mae angen i chi ddweud wrthym. Cliciwch ar y saeth wrth ymyl eu cofnod, a dewiswch 'Newid'.

Ar y dudalen nesaf, cliciwch ar y saeth ar y dde a dewiswch 'Gorffen Cyflogaeth' i gadarnhau eu bod wedi gadael eich sefydliad. Bydd angen i chi ddweud wrthym y dyddiad y gadawodd yn ogystal â'r rheswm dros adael.

Ar ôl ei gadw a'i gyflwyno ar y dudalen nesaf, ni fydd y person hwnnw'n ymddangos yn eich rhestr o bersonau cofrestredig.

Mae'n rhaid i chi ddweud wrthym am unrhyw faterion sy'n ymwneud ag addasrwydd i ymarfer eich gweithwyr.

I wneud hyn, dewiswch y botwm 'Adrodd Pryder Ffitrwydd i ymarfer' ar y brif dudalen.

Cliciwch y botwm 'Codi Pryder' ar y dudalen a fydd yn mynd â chi i'r ffurflen ar-lein ar ein Gwefan.

Gallwch reoli llofnodwyr eich sefydliad trwy glicio ar y botwm Llofnodwyr ar y brif dudalen.

Dim ond llofnodwyr arweiniol sydd â mynediad i'r swyddogaeth hon.

Byddwch yn gweld rhestr o'r holl lofnodwyr ar gyfer eich sefydliad wedi'u gwahanu gan y gwahanol fathau.

Gallwch olygu manylion, neu ddileu llofnodwyr trwy glicio ar y saeth wrth ymyl eu henw.

I olygu cyfeiriad gwaith neu deitl swydd llofnodwr, cliciwch y botwm 'newid / Diddymu' a chwblhewch y manylion ar y dudalen nesaf.

I ddileu llofnodwr, dewiswch yr opsiwn o'r saeth.

Cwblhewch y ffurflen trwy ddweud wrthym o ba ddyddiad y daw hyn i rym.

Darganfyddwch fwy am [gyfrifoldebau cyflogwyr a SAU](#).

Gelwir un o'r llwybrau i gofrestru yn asesiad gan gyflogwr. Gofynnwn i gyflogwyr gadarnhau addasrwydd ymgeisyddwrth eu hasesu yn erbyn rhestr o gymwyseddau.

Dyma fideo canllaw cyflym i helpu cyflogwyr i ddeall sut i reoli ceisiadau asesu gan cyflogwyr yn eu cyfrif [GCCarlein](#).

Gweld trawsgrifiad

0:04 --> 00:07

Mae hyn yn ganllaw i gyflogwr ar

0:07 --> 00:09

gwblhau'r broses o asesu

0:09 --> 00:10

cyflogwr.

0:15 --> 00:17

Os yw aelod o'ch sefydliad

0:17 --> 00:20

wedi gwneud cais i gofrestru trwy'r llwybr

0:20 --> 00:22

asesiad cyflogwr

0:22 --> 00:23

bydd angen i chi gwblhau'r

0:23 --> 00:26

cais asesiad cyflogwr ar-lein cyn

0:26 --> 00:29

y gallant gofrestru. Sylwch mai dim ond

0:29 --> 00:31

rheolwyr cofrestredig sydd â rôl 'asesydd

0:31 --> 00:33

cymhwysedd' fydd yn gallu cwblhau'r

0:33 --> 00:35

ceisiadau hyn.

0:35 --> 00:38

Bydd ceisiadau asesiad cyflogwr

0:38 --> 00:41

sydd heb eu cwblhau yn ymddangos o dan

0:41 --> 00:42

'ceisiadau am gymeradwyaeth'

0:42 --> 00:44

a bydd ganddynt fath o ardystiad

0:44 --> 00:46

'cadarnhau cymhwysedd'.

0:46 --> 00:48

os hoffech weld y cais cysylltiedig

0:48 --> 00:50

yn llawn, cliciwch ar

0:50 --> 00:53

'gweld ffurflen cais'.

0:53 --> 00:56

Y tu mewn i gofnod asesiad y cyflogwr,

0:56 --> 00:58

mae dolen 'cymorth' sy'n rhoi

0:58 --> 01:01

eglurhad ar y gofynion a'r

1:01 --> 01:04

meini prawf i ymgeisydd ddefnyddio'r

1:04 --> 01:06

llwybr asesu cyflogwr. Yn gyntaf bydd

1:06 --> 01:08

angen i chi ymgyfarwyddo â'r wybodaeth ar

1:08 --> 01:12

y dudalen gymorth hon.



1:12 --> 01:14

Darllenwch drwy'r meysydd a restrir y

1:14 --> 01:16

mae'n rhaid i weithiwr gofal eu deall er mwyn

1:16 --> 01:19

defnyddio llwybr asesu'r cyflogwr. Os ydych

1:19 --> 01:21

yn hyderus bod gan yr ymgeisydd y ddealltwriaeth

1:21 --> 01:23

briodol i gofrestru drwy'r

1:23 --> 01:26

llwybr asesu cyflogwr,

1:26 --> 01:28

cliciwch ar 'cadarnhau y gall wneud cais'.

1:28 --> 01:31

Gallwch hefyd gynnwys rhagor

1:31 --> 01:32

o wybodaeth yma os dymunwch.

1:32 --> 01:35

Yn olaf, cliciwch cyflwyno i

1:35 --> 01:40

gwblhau'r cais asesiad cyflogwr.

Dysgwch fwy am y broses [asesiad gan gyflogwr](#).

## Astudiaethau achos

Mae'n amser i gofrestru ar gyfer llawer o bobl, i helpu rydym wedi creu fideos astudiaethau achos sy'n dangos beth sydd gan bobl go iawn sy'n gweithio yn y sector gofal cymdeithasol i'w ddweud am gofrestru efo ni.

**Dyma fideo canllaw cyflym am brofiad Cartref Gofal Highfield o gofrestru.**

**Dyma fideo canllaw cyflym am brofiad Hengoed Care o gofrestru.**

## Adnoddau ychwanegol

I ddod o hyd i fwy o fideos cam wrth gam am sut i gwblhau eich cais i gofrestru ewch i'n [rhestr chware cofrestru ar ein sianel YouTube](#).